

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Fawrth, 2023.

- 1. Presennol:** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa)
- 2. Ymddiheuriadau:** Enid Egginton (Garndolbenmaen), Edward Evans (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg), Sarah Jones (Pentrefelin), Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Sir Cyngor Gwynedd), John Till (Golan)
- 3. Ddim yn bresennol:** Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
- 4. Datgan buddiant:** Neb
- 5. Cywirdeb y cyn-gofnodion:** Richard Parry yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.
- 6. Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:**

Etholiad 2022: Mel ab Owain wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr, Cyngor Gwynedd a Siân Gwenllïan AS ar ran y Cyngor Cymuned a Chynghorau Cymuned eraill. Disgwyl ymateb.

Bwrdd Gwybodaeth Eglwys Ynys Cynhaearn: Ffion Gwyn yr arlunydd am gychwyn ar y gwaith o wneud portreadau.

Huw Pritchard i holi trigolion Pentrefelin i weld os hoffent fod yn rhan o'r prosiect a chasglu ac ysgrifennu gwybodaeth am yr enwogion lleol.

Pont y Traeth, Prenteg: Cafwyd cyfarfod safle ar y 1af o Fawrth rhwng Cynghorwyr Cymuned a Swyddogion o Gyngor Gwynedd. Trafodwyd y pryderon o ddŵr yn cronni a choed sydd yn tyfu ar y bont ar effaith y gall hyn gael ar y strwythur. Gobeithir cael datrysiad yn y flwyddyn nesaf.

Hwb Eifionydd: Derbyniwyd ateb yn dweud nad yw'r grŵp yn teimlo fod mynychu cyfarfodydd i drafod pryderon ynglŷn â'r feddygfa yn rhan o ddiben y grŵp cleifion. Dywedwyd fod Rheolwyr y Practis yn fwy na bodlon i gyfarfod gyda Chadeirydd y Cyngor Cymuned yn y feddygfa a bod cyfarfod o'r fath eisoes wedi digwydd gyda Chyngor Tref Criccieth a bod y cyfarfod wedi bod o fudd.

Cyfarfodydd Aml leoliad: Adroddwyd bod Swyddog newydd wedi cymryd drosodd gan Anwen Davies, ei henw yw Siwan Lisa Evans. Siwan wedi adrodd ei bod yn fwy na bodlon cysylltu hefo pwynt cyswllt yn neuaddau/canolfannau cymdeithasol am sgwrs i weld beth yw eu hanghenion o safbwynt mynediad at fand eang.

Dafarn Faig: Yn y broses o drefnu cyfarfod safle arall, disgwyl dyddiadau cyfleus gan Merfyn Wyn Morris o'r Adran Gefnffyrdd.

Diffibriliwr Prenteg: Diffibriliwr wedi ei brynu ac wedi cyrraedd. Wedi trefnu fod y diffibriliwr yn cael ei osod yn y Ganolfan ym Mhrenteg ar fore dydd Gwener y 3ydd o Fawrth.

Hysbysfwrdd Pentrefelin: Clerc wedi cysylltu hefo Raymond Jones er mwyn iddo gychwyn ar y gwaith o greu un newydd.

Mynwentydd: Cadeirydd wedi cael sgwrs hefo'r contractwr i osod arwydd "gwaith ar ei hanner" ym Mynwent Bethel pan mae gwaith yn cymryd mwy na diwrnod i'w gwblhau.

Llwybrau Cyhoeddus: Clerc wedi adrodd am yr arwyddion llwybr troed sydd wedi disgyn/diflannu yng nghymuned Pentrefelin.

Adroddiad Pentrefi: Adroddodd y Clerc fod y gwaith o atgyweirio'r cylfat rhwng Cefn Coch Isaf ac Uchaf wedi ei ychwanegu ar raglen waith swyddogion Priffyrdd. Parthed cyflwr y ffordd ger Tyddyn Madyn, dywedwyd fod Archwiliwr Priffyrdd am fynd i weld cyflwr y ffordd gyda'r Uwch Beiriannydd.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu ag Uned Llygredd Cyngor Gwynedd parthed y teiars sydd wedi'u tipio yn anghyfreithlon, heb dderbyn ymateb eto.

Rhoddion Ariannol: Cadarnhawyd bod pob rhodd ariannol wedi ei dalu i bawb sydd wedi llenwi ffurflen gais a darparu mantolen ariannol.

Archwilydd Mewnol: Clerc wedi cysylltu hefo Hughes Jones, Dyson ac maent wedi ymateb i gadarnhau eu bod yn hapus i wneud y gwaith.

Baner Ambiwylans Awyr: Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Tref Pwllheli. Cyngor Tref Pwllheli am roi manylion y Clerc i'r argraffydd. Heb glywed yn ôl gan yr argraffydd. Penderfynwyd bod angen parhau gyda chael baner.

7. Mynwentydd: Dim i'w adrodd

8. **Llwybrau Cyhoeddus:** Llwybr 110 – Adroddwyd fod coeden wedi disgyn ar draws y llwybr a bod llechen ger y giât mochyn wedi torri sydd yn golygu fod defaid yn gallu dianc drwyddo. Clerc i adrodd i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Adroddwyd fod un giât ceffyl newydd wedi ei osod ar y llwybr ceffyl o Dy'n Ffridd i Ffridd Newydd.

9. **Adroddiad Pentrefi:**

Garndolbenmaen: Adroddwyd bod y ffordd ger Llys Eifion yn wlyb drwy'r adeg. Clerc i adrodd i Briffyrdd Dwyfor.

Codwyd pryder eto am y lorïau sydd yn mynd i Fynydd Glas ger Bryn Awelon. Eu bod yn achosi perygl wrth wrthdroi i'r ffordd. Clerc i gysylltu ag Adran Gynllunio'r Parc Cenedlaethol.

Adroddwyd fod yna dipyn o sbwriel ar ochr y ffordd o gyffordd Glandwyfach i gyfeiriad Rhoslan. Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd.

Pentrefelin: Adroddodd Huw Pritchard ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd i weld pwy sydd berchen y darn o dir ger Bryn Tyddyn.

10. **Archwiliad Allanol:** Adroddwyd fod y cyfrifon 2021/2022 wedi eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Diolchwyd i'r cyn-glerc am ei gwaith caled.
11. **Adolygu Costau Ffôn a Chyfrifiadur Clerc:** Penderfynwyd cynyddu'r lwfans cyfrifiadur o £15.00 i £20.00 y mis a ffôn o £10.00 i £15.00 y mis.
12. **Arolwg Hyfforddiant:** Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar wahân i fynd drwy'r arolwg hyfforddiant ac i lunio ymateb i'r arolwg. Clerc i drefnu.
13. **Sedd Wag Pentrefelin a Phenmorfa:** Derbyniwyd un cais ar gyfer Penmorfa ac un cais ar gyfer Pentrefelin. Penderfynwyd cyfethol y ddau. Clerc i gysylltu â'u gwadd i'w cyfarfod cyntaf fis nesaf.
14. **Gohebiaeth:** Dim
15. **Gohebiaeth ychwanegol**
- a. Nodyn Cyngor Technegol (TAN15): Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau drafft pellach i ganllawiau cynllunio ynglŷn â llifogydd ac erydu arfordirol - angen anfon sylwadau i Unllais

- erbyn 31ain o Fawrth, 2023 - Rhannwyd
- b. Unllais Cymru - CHC / Llais - Llais yn cymryd drosodd Cyngor Iechyd Cymuned. Holiadur i'w lenwi erbyn 28ain Chwefror, 2023. - Rhannwyd
 - c. Llywodraeth Cymru - Poster gan Steffan Smith parthed Cynllun Prynu Cartref yng Ngwynedd
 - ch. Unllais Cymru - Cyfrifiad Diffib Mynediad Cyhoeddus Unllais Cymru - Does gan Cyngor Cymuned Dolbenmaen Diffib maen yn gyfrifol amdanynt.
 - d. Unllais Cymru - Ymgynghoriad Bil Addysg Awyr Agored, ymateb erbyn 17eg o Fawrth, 2023. - Rhannwyd.
 - dd. Unllais Cymru - Adroddiad Adolygiad Gweinidogol o Chwarae. - Rhannwyd
 - e. Unllais Cymru - Enwi Stacey Delbridge fel Arweinydd y Tîm Coetiroedd y Goedwig Genedlaethol. - Rhannwyd
 - f. Corff Gwarchod Iechyd - Ymateb i'r adroddiad diweddaraf ar wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru - Rhannwyd
 - ff. Unllais Cymru - Cylch Cydweithio Ymarfer y Bobl - Rhannwyd
 - g. Unllais Cymru - Cymru Iach ar Waith - Gwasanaeth Mentora 1:1 i bobl ifanc 16+ sydd allan o waith ac sydd yn/wedi dioddef o iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. - Rhannwyd
 - ng. Unllais Cymru - Datganiad i'r Wasg gan Gorff Gwarchod Iechyd - Adroddiad am brofiadau pobl o wasanaeth Menapôs yng Ngogledd Cymru.
 - h. Unllais Cymru - Cynllunio a sut mae'n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau yng Nghymru - Rhannwyd
 - i. Unllais Cymru - Arolwg Anghenion Hyfforddiant - angen ymateb erbyn 28ain o Fawrth, 2023. Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar wahân i drafod hwn.
 - j. Unllais Cymru - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Seibr i Gynghorwyr - Rhannwyd. Amlygwyd pwysigrwydd bod yn wylidwrus
 - l. Clwb Moduro Harlech a'r Cylch - Rali Coffa Llŷn - Merfyn Hughes ar yr 18/19eg o Fawrth, 2023. - Rhannwyd
 - ll. Unllais Cymru - Adroddiad Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (2016) Adroddiad ar yr hyn a wnaethom i gydymffurfio hefo'r dyletswyddau statudol. - Derbyniwyd yr adroddiad. Clerc i'w gyhoeddi.
 - m. Unllais Cymru - Dyddiadau Hyfforddiant Chwefror a Mawrth, 2023. Rhannwyd
 - n. Unllais Cymru - Llythyr i Adnewyddu Aelodaeth. Penderfynwyd ail ymaelodi.
 - o. Cyfoeth Naturiol Cymru - Safle We Cynllun Rheoli Llifogydd Porthmadog. Rhannwyd.

16. Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Theatr Bara Caws

Ambiwlans Awyr Cymru

Rachel Heal - Rhiant Ysgol Hafod Lon

Elusen Macmillan

Penderfynwyd cyfrannu £200.00 allan o Gronfa'r Cadeirydd tuag at achos Rachel Heal, Rhiant Ysgol Hafod Lon i helpu i brynu beic arbenigol i blant oed cynradd yr ysgol.

Ceisiadau eraill i'w cysidro yn 2024.

Monitro'r Gyllideb: Dim Gorwariant

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	=	£ 282.20
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 70.40
HSBC	=	£ 13.00
Canolfan Golan	=	£ 150.00
Y Ffynnon	=	£ 28.00
Aelodaeth Unllais	=	£250.00

Derbyniadau:

Henry Jones	=	£225.00
(Ymgymwrwr Angladdau)		
Pritchard & Griffiths		
(Ymgymwrwr Angladdau)	=	£220.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cyfredol: £14,267.74
Cadw: £16,870.04

17. Dewis Gohebiaeth i'r Wasg

- Cefnogi ymgyrch Rachel Heal
- Sbwriel o Gyffordd Glandwyfach
- Archwiliad Allanol
- Ynys Cynhaearn
- Pont y Traeth
- Cyfethol Dau Gynghorydd